# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD IAU, 16EG TACHWEDD, 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis a K. Madge

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd G. John, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/35655;
Y Cynghorydd D. Nicholas, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio E/35478;
Y Cynghorydd E. Schiavone, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/36312;
Y Cynghorydd L.M. Stephens, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/36194;
Y Cynghorydd J. Tremlett, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/35450;
Y Cynghorydd D.E. Williams, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio W/36197.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod**:

| | | |
|---|---|---|
| Mr J. Edwards | - | Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig |
| Mr G. Noakes | - | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Mr J. Thomas | - | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Ms H. Rice | - | Swyddog Rheoli Datblygu |
| Mr S. Murphy | - | Uwch Gyfreithiwr |
| Mr K. James | - | Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 12.40 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, J.K. Howell, K. Lloyd, G.B. Thomas a J.E. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/35318** | **Materion a gadwyd yn ôl yn dilyn Cais Cynllunio Amlinell E/29537 dyddiedig 25/03/2014 – manylion y lleoliad, dyluniad, gwedd allanol, tirweddu a dull mynediad ynghyd â diddymu amodau rhif 5, 6, 9, 10 ac 11 ar dir ger rhif 24 Parc Tir y Coed, Rhydaman, SA18 2HF.** |

**3.2 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/35478** | **Atgyweirio Capel Salem a'i addasu'n un breswylfa, Capel Salem, Heol Campbell, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3UP**<br><br>Cafwyd sylw a gefnogai'r cais gan fod yr adeilad yng nghanol y pentref a bod ei gyflwr wedi gwaethygu'n gyson ers 2005, a oedd yn annheg i'r cymdogion gan fod gwerth eu heiddo'n gostwng o ganlyniad. Gan fod yr eiddo'n wag, roedd yn destun fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd llechi'n cael eu rhwygo o'r to, a'r farn oedd y byddai'n well o lawer petai'n gartref teuluol.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |

**3.3 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar y sail bod y cais yn groes i Bolisi GP1 o'r CDLl, gan fyddai graddfa ac uchder y breswylfa arfaethedig yn arwain at effaith niweidiol ar eiddo cyfagos:-**

| | |
|---|---|
| **E/36077** | **Preswylfa ddeulawr arfaethedig a garej ar wahân ar dir gyferbyn â Brodawel, Llandeilo, SA19 7TA.**<br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad uchod, ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Nid oedd yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn addas ar gyfer y lleoliad a byddai preswylfa un llawr yn fwy priodol;<br>• Byddai'r breswylfa arfaethedig ac uchder y llawr yn sylweddol uwch na'r eiddo cyfagos;<br>• Roedd y garej yn agos iawn i'r ffin a byddai'n ormesol;<br>• Roedd y datblygiad arfaethedig mewn clwstwr bach o dai un llawr felly byddai'n  tynnu sylw;<br>• Roedd y cynnig ar gyfer tŷ mawr, garej a thramwyfa oll ar safle bach yn gyfystyr â gorddatblygu;<br>• Roedd y cynnig yn groes i sawl agwedd ar y CDLl ac yn benodol Polisi GP1;<br>• Roedd yr amodau o ran priffyrdd yn cyfeirio at y ffaith y dylid defnyddio'r safle i godi eiddo un llawr. |

| | |
|---|---|
| | Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.<br><br>Cynigiwyd ac eiliwyd cais am ymweliad safle, ond yn dilyn pleidlais ni chafwyd y cais ei chaniatau. |

## 4. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/35783** | **Cyfleuster ystorfa archif newydd tu cefn i'r llyfrgell bresennol. Yn cynnwys mynedfa newydd â ramp i'r staff o'r maes parcio cyhoeddus; pafin penwn glas newydd i fynedfa staff yr archif. Y cynigion i gynnwys grisiau tân newydd yn y llyfrgell bresennol ar dir ger Llyfrgell Caerfyrddin, Heol San Pedr, Caerfyrddin, SA31 1LN** |
| **W/35784** | **Cyfleuster ystorfa archif newydd tu cefn i'r llyfrgell bresennol. Yn cynnwys mynedfa newydd â ramp i'r staff o'r maes parcio cyhoeddus; pafin penwn glas newydd i fynedfa staff yr archif. Y cynigion i gynnwys grisiau tân newydd yn y llyfrgell bresennol ar dir ger Llyfrgell Caerfyrddin, Heol San Pedr, Caerfyrddin, SA31 1LN** |

**4.2 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/36312** | **Atgyweirio a chryfhau'r wal derfyn yn 1 Parc Starling, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3HX.**<br><br>Daeth sylw i law a gefnogai'r cais uchod, ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Roedd y wal yn fwy diogel nag o'r blaen;<br>• Roedd yr ymgeisydd yn mynd i wella gorffeniad y wal;<br>• Roedd waliau eraill tebyg yn y sir. |

**4.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safleoedd:-**

| | |
|---|---|
| **W/35450** | **Datblygiad preswyl arfaethedig gan gynnwys 42 o breswylfeydd ar dir ger Ysgol Gynradd Talacharn, Talacharn, SA33 4SQ**<br><br>**Y RHESWM:** Oherwydd pryderon a godwyd ynghylch diogelwch ffyrdd.<br><br>Cafwyd sylw a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle yn sgil pryderon ynghylch y cynnydd mewn traffig ac ynghylch diogelwch cerddwyr, yn enwedig plant oedd yn cerdded i'r ysgol ac o'r ysgol.<br><br>Yn unol â Phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis cadw eu sylwadau tan y cyfarfod ar ôl yr ymweliad safle. |
| **W/35655** | **Adeiladu warws ailgylchu teiars â swyddfeydd cysylltiedig, iard weithredol, closydd storio a seilwaith ategol ar dir oddi ar Heol Allt-y-cnap, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3QY**<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle yn sgil pryderon ynghylch agosrwydd eiddo preswyl a diogelwch priffyrdd.<br><br>Cafwyd sylw a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle yn sgil pryderon ynghylch agosrwydd eiddo preswyl a hefyd y ffaith bod pryderon ynghylch diogelwch ffyrdd yn bodoli ar hyn o bryd yn yr ardal. |
| **W/36194** | **Dymchwel y byngalo ac adeiladu tŷ yn ei le a garej (ailgyflwyno W/35643) yn Sŵn y Môr, Glanyfferi, SA17 5RS**<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle er mwyn cael amcan o'r breswylfa arfaethedig mewn perthynas ag eiddo cyfagos.<br><br>Cafwyd sylw a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle i'w alluogi i weld y byngalo presennol a chael amcan o'r breswylfa y bwriedir ei chodi yn ei le, a gweld a fyddai unrhyw effaith niweidiol bosibl ar eiddo cyfagos. |

| | |
|---|---|
| **W/36197** | **Cadw i ddefnyddio rhan o'r breswylfa fel salon harddwch a thrin gwallt, Pibwr Mill, Heol Bolahaul, Cwm-ffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LW**<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar natur safle'r cais.<br><br>Cafwyd sylw yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle er mwyn gweld natur gaeedig y safle a'r gyffordd. |

## 5. GORFODI AMODAU CYNLLUNIO A'U MONITRO DANGOSYDDION PERFFORMIAD - CHWARTER 1

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ar berfformiad mewn perthynas â thargedau Dangosyddion Perfformiad Cynllunio Cenedlaethol Gwerth Gorau ar gyfer camau gorfodi am y cyfnod Ebrill-Mehefin 2017 (chwarter 1)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad ynghylch y Dangosyddion Perfformiad o ran Monitro a Gorfodi Rheolau Cynllunio ar gyfer Chwarter 1.**

## 6. GORFODI AMODAU CYNLLUNIO A'U MONITRO DANGOSYDDION PERFFORMIAD - CHWARTER 2

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ar berfformiad mewn perthynas â thargedau Dangosyddion Perfformiad Cynllunio Cenedlaethol Gwerth Gorau ar gyfer camau gorfodi am y cyfnod Gorffennaf-Medi 2017 (chwarter 2)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad ynghylch y Dangosyddion Perfformiad o ran Monitro a Gorfodi Rheolau Cynllunio ar gyfer Chwarter 2.**

## 7. COFNODION

### 7.1. 3YDD HYDREF, 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2017, gan eu bod yn gywir.**

### 7.2. 19EG HYDREF, 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017, gan eu bod yn gywir.**

## 8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem**

**ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12, 13, 17 ac 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**9. GORFODI RHEOLAU CYNLLUNIO A MONITRO ACHOSION GORFODI - CHWARTER 1**

Yn sgil cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch y canlynol;**

- **Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol;**
- **Paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw;**
- **Paragraff 17 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn bwriadu:**
- **rhoi, o dan unrhyw ddeddfiad, rybudd a fyddai'n gosod gofynion ar unigolyn; neu**
- **gwneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad.**
- **Paragraff 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf - Gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd mewn perthynas ag atal trosedd, ymchwilio i drosedd neu erlyn trosedd.**

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am achosion lle ystyrid cymryd camau cyfreithiol yn erbyn trydydd partïon, a hynny weithiau mewn sefyllfaoedd lle nad oedd y trydydd parti yn ymwybodol o'r camau yr ystyrid eu cymryd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y trydydd parti, ac weithiau'n enwi achwynydd. Roedd budd i'r cyhoedd o ran cael sicrwydd bod arferion cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chymryd camau gorfodi yn gyfreithlon, yn deg ac yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau. Fodd bynnag, petai manylion ynghylch achosion unigol yn cael eu datgelu i'r cyhoedd ar hyn o bryd, byddai hynny'n debygol o beryglu'r ymchwiliad a hefyd gallai hynny fynd yn groes i ddyletswydd cyfrinachedd yr Awdurdod mewn perthynas ag ymdrin â chwyn. Felly ar ôl pwyso a mesur, barnwyd bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad y Pennaeth Cynllunio am y camau gorfodi yr oedd wedi eu cymryd yn unol â'r pwerau oedd wedi eu dirprwyo iddi am y cyfnod Ebrill-Mehefin 2017 (chwarter 1).**

**10. GORFODI RHEOLAU CYNLLUNIO A MONITRO ACHOSION GORFODI - CHWARTER 2**

Yn sgil cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch y**

**canlynol;**

- **Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol;**
- **Paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw;**
- **Paragraff 17 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn bwriadu:**
- **rhoi, o dan unrhyw ddeddfiad, rybudd a fyddai'n gosod gofynion ar unigolyn; neu**
- **gwneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad.**
- **Paragraff 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf - Gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd mewn perthynas ag atal trosedd, ymchwilio i drosedd neu erlyn trosedd.**

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am achosion lle ystyrid cymryd camau cyfreithiol yn erbyn trydydd partïon, a hynny weithiau mewn sefyllfaoedd lle nad oedd y trydydd parti yn ymwybodol o'r camau yr ystyrid eu cymryd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y trydydd parti, ac weithiau'n enwi achwynydd. Roedd budd i'r cyhoedd o ran cael sicrwydd bod arferion cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chymryd camau gorfodi yn gyfreithlon, yn deg ac yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau. Fodd bynnag, petai manylion ynghylch achosion unigol yn cael eu datgelu i'r cyhoedd ar hyn o bryd, byddai hynny'n debygol o beryglu'r ymchwiliad a hefyd gallai hynny fynd yn groes i ddyletswydd cyfrinachedd yr Awdurdod mewn perthynas ag ymdrin â chwyn. Felly ar ôl pwyso a mesur, barnwyd bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad y Pennaeth Cynllunio am y camau gorfodi yr oedd wedi eu cymryd yn unol â'r pwerau oedd wedi eu dirprwyo iddi am y cyfnod Gorffennaf-Medi 2017 (chwarter 2).**

[*SYLWCH: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**